| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 4 Chwefror 2013 |
| **TEITL** | Adolygiad o’r Fformiwla Dyrannu Ysgolion Cynradd |
| **PWRPAS** | Ystyried ymatebion Ysgolion i’r ymgynghoriad |
| **ARGYMHELLIAD** | Cyflwyno barn y Fforwm i’r Aelod Cabinet dros Addysg |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Sian Gwenllian |

## A. Cefndir

1. Yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2012 cyflwynwyd pecyn ymgynghori ar adolygiad o’r fformiwla dyrannu cynradd oedd eisoes wedi’i rhyddhau i’r ysgolion.
2. Roedd y pecyn yn cynnwys adroddiad John Roberts, gwybodaeth am effaith ariannol ar ysgolion unigol ynghyd â llythyr a ffurflen adborth gydag amserlen ymateb erbyn 18 Ionawr 2013.

## B. Pwrpas

1. Rwyf wedi ceisio crynhoi ymatebion yr ysgolion er mwyn amlygu sylwadau unigol perthnasol i’r adolygiad gan hefyd nodi'r nifer o ysgolion oedd wedi cynnwys y sylw hwnnw, gweler atodiad 1.
2. Ymateb unigol y 40 ysgol i’r ymgynghoriad, gweler atodiad 2.

## C. Argymhelliad

1. Dylai’r Fforwm ystyried a thrafod ymatebion ysgolion i’r adolygiad fformiwla cyn cyrraedd at farn ar y mater i’w gyflwyno i’r Aelod Cabinet dros Addysg.